***Status:*** *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

STATUTORY INSTRUMENTS

# 1993 No. 1511

# LANDLORD AND TENANT, ENGLAND AND WALES

## The Rent Act 1977 (Forms etc.) (Welsh Forms and Particulars) Regulations 1993

| | |
|---|---|
| *Made - - - -* | *10th June 1993* |
| *Laid before Parliament* | *22nd June 1993* |
| *Coming into force - -* | *13th July 1993* |

The Secretary of State for Wales, in exercise of the powers conferred on him by sections 66(2), 67(2), 67A(5), 73(3), 74(1) and 79(2) of the Rent Act 1977(**1**) as extended by subsections (2) and (3) of section 2 of the Welsh Language Act 1967(**2**) and of all other powers enabling him in that behalf, hereby makes the following Regulations:

**Citation and commencement**

**1.**—(1) These Regulations may be cited as the Rent Act 1977 (Forms etc.) (Welsh Forms and Particulars) Regulations 1993 and shall come into force on 13th July 1993.

(2) In these Regulations "the principal Regulations" means the Rent Act 1977 (Forms etc.) Regulations 1980(**3**).

**2.** The forms set out in the Schedule to these Regulations are hereby prescribed as versions in Welsh which may be used instead of the corresponding forms in the Schedule to the principal Regulations for the purposes set out in regulations 3 and 4 of the principal Regulations.

**3.** Forms substantially to the like effect to the forms set out in the Schedule to these Regulations may be used.

(**1**) 1977 c. 42; section 67(2) was substituted by the Housing Act 1980 (c. 51), section 59(2); section 67A was inserted by paragraph 3 of Schedule 2 to the Local Government and Finance (Housing) (Consequential Amendments) Order 1993 (S.I.1993/651) and has effect in transitional cases; section 73(3) was substituted by section 62(3) of the Housing Act 1980 (c. 51); section 74(1) was amended by section 41(1) of the Housing Act 1988 (c. 50) and by paragraph 51 of Schedule 11 to the Local Government and Housing Act 1989 (c. 42) and see the definition of "prescribed" in section 75 of the Act; section 79(2) was amended by paragraph 43 of Schedule 25 to the Housing Act 1980. Sections 67, 67A and 74(1) of the 1977 Act are applied by section 13 of the Rent (Agriculture) Act 1976 (c. 80) to statutory tenancies under the 1976 Act. Section 13 was amended by paragraph 75 of Schedule 23 to the Rent Act 1977, Schedule 18 to the Housing Act 1988, and paragraphs 1 and 2 of Schedule 2 to the Local Government Finance (Housing) (Consequential Amendments) Order 1993.

(**2**) 1967 c. 66.

(**3**) S.I. 1980/1697, as amended by S.I. 1984/1391, S.I. 1987/266, S.I. 1988/2195 and S.I. 1993/655.

*John Redwood*
Secretary of State for Wales

10th June 1993

THE SCHEDULE

Contents

THE SCHEDULE

**Contents**

RHIF Y FFURFLEN

[FORM NO.]

5. Cais am gofrestru rhent teg.

6. Cais am gofrestru rhent teg yn achos tenantiaeth statudol yn codi ar ddiwedd tenantiaeth hir o dan ran 1 Deddf Landlordiaid A Thenantiaid 1954.

7. Cais am gofrestru rhent teg â'r tŷ anedd yn ddarostyngedig i denantiaeth statudol o dan Ddeddf Rhent (Amaethyddiaeth) 1976.

9A. Cais am gofrestru rhent teg interim yn achos cynnydd oherwydd y dreth gyngor.

10. Cyd-gais am ddileu rhent cofrestredig.

11. Cais am ddileu rhent cofrestredig lle nad oes tenantiaeth reoledig.

12. Hysbysiad ynglŷn â chais am gofrestru rhent teg.

13. Hysbysiad ynglŷn â chais am gofrestru rhent teg.

**FFURFLEN RHIF 5**

**RENT ACT 1977 Section 67 as amended by the Housing Act 1980**

**[DEDDF RHENTI 1977 Adran 67 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai 1980]**

**CAIS AM GOFRESTRU RHENT TEG**

Defnyddiwch y ffurflen hon ac eithrio yn yr achosion arbennig a nodir yn y Nodyn ar ddiwedd y ffurflen.

At y Swyddog Rhenti

| | |
|---|---|
| 1 Cyfeiriad yr Adeilad | Ystyr "Adeilad" yw'r eiddo, er enghraifft y tŷ, y fflat neu'r ystafell(oedd) yr ydych am gofrestru rhent ar ei gyfer |
| 2 Enw'r Tenant<br><br>Hefyd rhowch gyfeiriad y tenant os yw'n wahanol i'r uchod | |
| 3 Enw a Chyfeiriad y Landlord<br><br>Os cymdeithas tai gofrestredig neu ymddiriedolaeth tai, neu os y Gorfforaeth Tai ydyw, ticiwch yma ☐ | |
| 4 Manylion yr Adeilad<br><br>Dywedwch ba fath o eiddo ydyw, er enghraifft, tŷ, fflat neu ystafell(oedd). Os fflat neu ystafell(oedd) ydyw, dywedwch ar ba lawr y mae<br><br>Nodwch nifer a math yr ystafelloedd | ______________________ |
| 5 A yw'r denantiaeth yn cynnwys unrhyw eiddo arall?<br><br>Megis modurdy, neu adeilad neu dir arall ar wahân<br><br>Os "Ydyw", rhowch y manylion | Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch |

| | | |
|---|---|---|
| 6 A yw'r tenant yn rhannu unrhyw ystafelloedd? | | |
| ● gyda'r landlord? | Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ | Ticiwch un blwch |
| Os "Ydyw", rhowch y manylion | ______ | |
| ● gyda thenant arall? | Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ | Ticiwch un blwch |
| Os "Ydyw", rhowch y manylion | | |
| 7 Pa rent yr ydych am i'r swyddog rhenti ei gofrestru fel rhent teg?<br><br>Cynhwyswch unrhyw swm am wasanaethau a/neu ddodrefn a ddarperir gan y landlord neu landlord uwch. Peidiwch â chynnwys dim ar gyfer trethi<br><br>Cynhwyswch y dreth gyngor os yw'n daladwy o dan y denantiaeth gan y tenant i'r landlord | £ y (ee yr wythnos y mis, y chwarter etc) | **Ni all y swyddog rhenti ymdrin â'ch cais oni bai eich bod yn ateb y cwestiwn hwn** |
| 7A A oes rhaid i'r tenant dalu'r dreth gyngor i'r landlord | Oes ☐ Nac oes ☐ | |
| Os "Oes", rhowch y manylion | | |
| 7B A yw'r landlord neu'r uwch landlord yn talu'r dreth gyngor mewn perthynas â'r eiddo? | Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ | |
| Os "Ydyw", rhowch y manylion | | |

Gall fod yn rhaid i landlord dalu'r dreth gyngor os yw'r eiddo mewn tŷ mewn aml-ddaliadaeth, oni bai bod yr eiddo yn annedd sydd wedi'i eithrio. Y prif eithriadau yw lle bo preswylwyr annedd o'r fath yn fyfyrwyr neu'n ymadawyr diweddar â'r ysgol neu'r coleg.

| | | |
|---|---|---|
| 8 A oes unrhyw wasanaethau'n cael eu darparu o dan y denantiaeth? | | |
| Megis glanhau, golau, gwres, dŵr poeth neu arddio | Oes ☐ Nac oes ☐ | Ticiwch un blwch |
| Os "Oes", rhowch y manylion | | |
| 9 Os chi yw'r landlord (ac os nad cais ar y cyd yw hwn) faint o'r rhent arfaethedig sydd, yn eich barn chi, yn codi o'r gwasanaethau hyn? | £ y (ee yr wythnos y mis, y chwarter etc) | **Os cais gan landlord yw hyn, rhaid iddo gynnwys manylion y gwariant a dynnir wrth ddarparu unrhyw wasanaethau, neu fel arall ni all y swyddog rhenti ymdrin â'r cais** |
| 10 A oes unrhyw ddodrefn yn cael eu darparu o dan y denantiaeth? | Oes ☐ Nac oes ☐ | Ticiwch un blwch |
| Os "Oes", rhowch y manylion neu anfonwch restr gyda'r ffurflen | | |
| 11 Pryd y dechreuodd y denantiaeth? | ______ | |
| Os am gyfnod sefydlog, nodwch ba mor hir | ______ | |
| Pa waith trwsio sy'n gyfrifoldeb<br>● y landlord?<br>● y tenant? | ______ | |

Rhowch fanylion telerau eraill y denantiaeth (ac eithrio rhent)

Os oes gennych gytundeb tenantiaeth anfonwch ef neu gopi ohono gyda'r ffurflen hon. Caiff ei anfon yn ôl atoch yn ddi-oed

12 Beth yw'r rhent yn awr? — £ y (ee yr wythnos, y mis, y chwarter etc)

A yw hyn yn cynnwys unrhyw drethi? — Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch

Os "Ydyw", rhowch y manylion — Dywedwch ba drethi sydd wedi'u cynnwys

Cynhwyswch y dreth gyngor os yw'n daladwy o dan y denantiaeth gan y tenant i'r landlord

13 A yw'r swyddog rhenti wedi cofrestru neu gadarnhau rhent teg ar gyfer yr adeiladau o'r blaen? — Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch

Os "Ydyw", a ddaeth i rym lai na blwyddyn a 9 mis yn ôl? — Do ☐ Naddo ☐ Ticiwch un blwch

Os atebwch "Do" i'r ail gwestiwn, rhowch resymau dros eich cais, oni bai mai cais ar y cyd gan landlord a thenant ydyw

14 Yn ystod y denantiaeth bresennol

- a yw'r tenant* wedi gwneud gwelliannau neu wedi gosod offer sefydlog, ffitiadau neu ddodrefn newydd nad yw'n gyfrifol amdanynt o dan delerau ei denantiaeth? — Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch

Os "Ydyw", rhowch y manylion

- a oes angen trwsio, neu a oes nam arall ar yr eiddo neu unrhyw offer sefydlog, ffitiadau neu ddodrefn am fod y tenant* wedi methu cydymffurfio ag amodau'r denantiaeth? — Oes ☐ Nac oes ☐ Ticiwch un blwch

Os "Oes" rhowch y manylion

* *gan gynnwys cyn-denant o dan y denantiaeth bresennol*

15 Os yw'r swyddog rhenti wedi cofrestru rhent teg ar gyfer yr adeilad o'r blaen, a yw'r landlord wedi gwneud unrhyw waith gwella o bwys ers hynny? — Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch

Os "Ydyw", rhowch y manylion

16 Yr wyf fi/yr ydym ni yn gwneud cais am gofrestru rhent

| | |
|---|---|
| Llofnod ........................................ | Llofnod ........................................ |
| *Dywedwch ai'r landlord neu asiant y landlord ydych* | *Dywedwch ai'r tenant neu asiant y tenant ydych* |
| Dyddiad ........................................ | Dyddiad ........................................ |

Os llofnodwyd gan asiant, enw
a chyfeiriad yr asiant ........................................................................................

..........................................................................................................

Os gwneir y cais ar y cyd gan landlord a thenant, dylai'r ddau lofnodi. Os cais ar y cyd yw hwn, gall y swyddog rhenti gofrestru'r rhent y gofynnir amdano yng nghwestiwn 7 heb ymgynghori pellach. Os gwnaiff hynny, nid oes unrhyw hawl i wrthwynebu gerbron pwyllgor asesu rhenti. Mewn cais gan gyd-denantiaid neu gyd-landlordiaid, dylai pob un lofnodi, oni bai bod un yn llofnodi fel asiant ar ran y gweddill gyda'u cytundeb. Mewn achos o'r fath dylai ddweud ei fod yn gweithredu fel asiant.

---

NODYN

Ni ddylid defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer:

- tenantiaeth statudol sy'n codi ar ddiwedd tenantiaeth hir o dan Ran I Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954 (defnyddiwch Ffurflen Rhif 6)
- tenantiaeth statudol o dan y Ddeddf Rhenti (Amaethyddiaeth) 1976 (defnyddiwch Ffurflen Rhif 7)
- cais a ategir gan dystiolaeth rhent teg (defnyddiwch Ffurflen Rhif 9)
- cais am gofrestru rhent interim i gymryd i ystyriaeth fod rhaid i'r tenant wneud taliadau i'w landlord mewn perthynas â'r dreth gyngor (defnyddiwch Ffurflen 9A)

---

**FFURFLEN RHIF 6**

**RENT ACT 1977 section 67 as amended by the Housing Act 1980**

**[DEDDF RHENTI 1977 adran 67 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai 1980]**

**CAIS AM GOFRESTRU RHENT TEG YN ACHOS TENANTIAETH STATUDOL YN CODI AR DDIWEDD TENANTIAETH HIR O DAN RAN 1 DEDDF LANDLORDIAID A THENANTIAID 1954**

Defnyddiwch y ffurflen hon ar gyfer tenantiaeth statudol yn codi ar ddiwedd tenantiaeth hir o dan Ran 1 Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954.

At y Swyddog Rhenti

| | |
|---|---|
| 1 Cyfeiriad yr Adeilad | Ystyr "Adeilad" yw'r eiddo, er enghraifft y tŷ, y fflat neu'r ystafell(oedd) yr ydych am gofrestru rhent ar ei gyfer |
| 2 Enw'r Tenant<br><br>Hefyd rhowch gyfeiriad y tenant os yw'n wahanol i'r uchod | |
| 3 Enw a Chyfeiriad y Landlord<br><br>Os cymdeithas tai gofrestredig neu ymddiriedolaeth tai, neu os y Gorfforaeth Tai ydyw, ticiwch yma | ☐ |
| 4 Manylion yr Adeilad<br><br>Dywedwch ba fath o eiddo ydyw, er enghraifft, tŷ, fflat neu ystafell(oedd). Os fflat neu ystafell(oedd) ydyw, dywedwch ar ba lawr y mae<br><br>Nodwch nifer a math yr ystafelloedd | ____________________ |

| | | |
|---|---|---|
| 5 A yw'r denantiaeth yn cynnwys unrhyw eiddo arall?<br><br>Megis modurdy, neu adeilad neu dir arall ar wahân<br><br>Os "Ydyw", rhowch y manylion | Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ | Ticiwch un blwch |
| 6 A yw'r tenant yn rhannu unrhyw ystafelloedd?<br><br>● gyda'r landlord?<br><br>Os "Ydyw", rhowch y manylion | Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ | Ticiwch un blwch |
| ● gyda thenant arall?<br><br>Os "Ydyw", rhowch y manylion | Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ | Ticiwch un blwch |
| 7 Pa rent yr ydych am i'r swyddog rhenti ei gofrestru fel rhent teg?<br><br>Cynhwyswch unrhyw swm am wasanaethau a/ neu ddodrefn a ddarperir gan y landlord neu landlord uwch. Peidiwch â chynnwys dim ar gyfer trethi<br><br>Cynhwyswch y dreth gyngor os yw'n daladwy o dan y denantiaeth gan y tenant i'r landlord | £ y (ee yr wythnos y mis, y chwarter etc) | **Ni all y swyddog rhenti ymdrin â'ch cais oni bai eich bod yn ateb y cwestiwn hwn** |
| 7A A oes rhaid i'r tenant dalu'r dreth gyngor i'r landlord?<br><br>Os "Oes", rhowch y manylion | Oes ☐ Nac oes ☐ | |
| 7B A yw'r landlord neu'r uwch landlord yn talu'r dreth gyngor mewn perthynas â'r eiddo?<br><br>Os "Ydyw", rhowch y manylion | Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ | |

Gall fod yn rhaid i landlord dalu'r dreth gyngor os yw'r eiddo mewn tŷ mewn aml-ddaliadaeth, oni bai bod yr eiddo yn annedd sydd wedi'i eithrio. Y prif eithriadau yw lle bo preswylwyr annedd o'r fath yn fyfyrwyr neu'n ymadawyr diweddar â'r ysgol neu'r coleg.

| | | |
|---|---|---|
| 8 A oes unrhyw wasanaethau'n cael eu darparu o dan y denantiaeth?<br><br>Megis glanhau, golau, gwres, dŵr poeth neu arddio<br><br>Os "Oes", rhowch y manylion | Oes ☐ Nac oes ☐ | Ticiwch un blwch |
| 9 Os chi yw'r landlord (ac os nad cais ar y cyd yw hwn) faint o'r rhent arfaethedig sydd, yn eich barn chi, yn codi o'r gwasanaethau hyn? | £ y (ee yr wythnos y mis, y chwarter etc) | **Os cais gan landlord yw hwn, rhaid iddo gynnwys manylion y gwariant a dynnir wrth ddarparu unrhyw wasanaethau, neu fel arall ni all y swyddog rhenti ymdrin â'r cais** |
| 10 A oes unrhyw ddodrefn yn cael eu darparu o dan y denantiaeth?<br><br>Os "Oes", rhowch y manylion neu anfonwch restr gyda'r ffurflen | Oes ☐ Nac oes ☐ | Ticiwch un blwch |

11 Y denantiaeth

Ar ba ddyddiad y dechreuodd y denantiaeth statudol neu pryd y bydd yn dechrau? ______________

Beth yw telerau'r denantiaeth y cytunwyd arni rhwng y landlord a'r tenant, neu y penderfynwyd arni gan y Llys? ______________

A gafodd unrhyw waith trwsio cychwynnol ei wneud? Do ☐ Naddo ☐ Ticiwch un blwch

Os "Do', a gafodd ei orffen? Do ☐ Naddo ☐ Ticiwch un blwch

Os "Naddo", rhowch fanylion y gwaith trwsio sydd heb ei wneud

Os oes gennych gytundeb tenantiaeth neu orchymyn llys anfonwch ef neu gopi ohono gyda'r ffurflen hon. Caiff ei anfon yn ôl atoch yn ddi-oed

12 Yn ystod y denantiaeth bresennol

- a yw'r tenant* wedi gwneud gwelliannau neu wedi gosod offer sefydlog, ffitiadau neu ddodrefn newydd nad yw'n gyfrifol amdanynt o dan delerau ei denantiaeth? Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch

Os "Ydyw", rhowch y manylion ______________

- a oes angen trwsio, neu a oes nam arall ar yr eiddo neu unrhyw offer sefydlog, ffitiadau neu ddodrefn am fod y tenant* wedi methu cydymffurfio ag amodau'r denantiaeth? Oes ☐ Nac oes ☐ Ticiwch un blwch

Os "Oes" rhowch y manylion

* *gan gynnwys cyn-denant o dan y denantiaeth bresennol*

13 Yr wyf fi/yr ydym ni yn gwneud cais am gofrestru rhent

Llofnod ........................................
*Dywedwch ai'r landlord neu asiant y landlord ydych*

Dyddiad ........................................

Llofnod ........................................
*Dywedwch ai'r tenant neu asiant y tenant ydych*

Dyddiad ........................................

Os llofnodwyd gan asiant, enw a chyfeiriad yr asiant ........................................

........................................

Os gwneir y cais ar y cyd gan landlord a thenant, dylai'r ddau lofnodi. Os cais ar y cyd yw hwn, gall y swyddog rhenti gofrestru'r rhent y gofynnir amdano yng nghwestiwn 7 heb ymgynghori pellach. Os gwnaiff hynny, nid oes unrhyw hawl i wrthwynebu gerbron pwyllgor asesu rhenti. Mewn cais gan gyd-denantiaid neu gyd-landlordiaid, dylai pob un lofnodi, oni bai bod un yn llofnodi fel asiant ar ran y gweddill gyda'u cytundeb. Mewn achos o'r fath dylai ddweud ei fod yn gweithredu fel asiant.

**FFURFLEN RHIF 7**

**RENT ACT 1977 section 67 and Rent (Agriculture) Act 1976 as amended by the Housing Act 1980**

**[DEDDF RHENTI 1977 adran 67 a Deddf Rhenti (Amaethyddiaeth) 1976 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai 1980]**

**CAIS AM GOFRESTRU RHENT TEG A'R TŶ ANNEDD YN DDAROSTYNGEDIG I DENANTIAETH STATUDOL O DAN Y DDEDDF RHENTI (AMAETHYDDIAETH) 1976**

Defnyddiwch y ffurflen hon ar gyfer tenantiaeth statudol o dan y Ddeddf Rhenti (Amaethyddiaeth) 1976 (gweler y Nodyn ar ddiwedd y ffurflen).

At y Swyddog Rhenti

| | |
|---|---|
| 1 Cyfeiriad yr Adeilad | Ystyr "Adeilad" yw'r eiddo, er enghraifft y tŷ, y fflat neu'r ystafell (oedd) yr ydych am gofrestru rhent ar ei gyfer |
| 2 Enw'r Tenant Statudol<br><br>Hefyd rhowch gyfeiriad y tenant os yw'n wahanol i'r uchod | |
| 3 Enw a Chyfeiriad y Landlord | |
| 4 Manylion yr Adeilad<br><br>Dywedwch ba fath o eiddo ydyw, er enghraifft, tŷ, fflat neu ystafell(oedd). Os fflat neu ystafell(oedd) ydyw, dywedwch ar ba lawr y mae<br><br>Nodwch nifer a math yr ystafelloedd | |
| 5 A yw'r denantiaeth yn cynnwys unrhyw eiddo arall?<br><br>Megis modurdy, neu adeilad neu dir arall ar wahân<br><br>Os "Ydyw", rhowch y manylion | Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch |
| 6 A yw'r tenant yn rhannu unrhyw ystafelloedd?<br><br>● gyda'r landlord?<br><br>Os "Ydyw", rhowch y manylion<br><br>● gyda thenant arall?<br><br>Os "Ydyw", rhowch y manylion | Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch<br><br>Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch |
| 7 Pa rent yr ydych am i'r swyddog rhenti ei gofrestru fel rhent teg?<br><br>Cynhwyswch unrhyw swm am wasanaethau a/neu ddodrefn a ddarperir gan y landlord neu landlord uwch. Peidiwch â chynnwys dim ar gyfer trethi<br><br>Cynhwyswch y dreth gyngor os yw'n daladwy o dan y denantiaeth gan y tenant i'r landlord | £ y (ee yr wythnos y mis, y chwarter etc)<br><br>**Ni all y swyddog rhenti ymdrin â'ch cais oni bai eich bod yn ateb y cwestiwn hwn** |

| | | |
|---|---|---|
| 7A A oes rhaid i'r tenant dalu'r dreth gyngor i'r landlord | Oes ☐ Nac oes ☐ | |
| Os "Oes", rhowch y manylion | | |
| 7B A yw'r landlord neu'r uwch landlord yn talu'r dreth gyngor mewn perthynas â'r eiddo? | Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ | |
| Os "Ydyw", rhowch y manylion | | |

Gall fod yn rhaid i landlord dalu'r dreth gyngor os yw'r eiddo mewn tŷ mewn aml-ddaliadaeth, oni bai bod yr eiddo yn annedd sydd wedi'i eithrio. Y prif eithriadau yw lle bo preswylwyr annedd o'r fath yn fyfyrwyr neu'n ymadawyr diweddar â'r ysgol neu'r coleg.

| | | |
|---|---|---|
| 8 A oes unrhyw wasanaethau'n cael eu darparu o dan y denantiaeth? | | |
| Megis glanhau, golau, gwres, dŵr poeth neu arddio | Oes ☐ Nac oes ☐ | Ticiwch un blwch |
| Os "Oes", rhowch y manylion | | |
| 9 Os chi yw'r landlord (ac os nad cais ar y cyd yw hwn) faint o'r rhent arfaethedig sydd, yn eich barn chi, yn codi o'r gwasanaethau hyn? | £ y (ee yr wythnos y mis, y chwarter etc) | **Os cais gan landlord yw hyn, rhaid iddo gynnwys manylion y gwariant a dynnir wrth ddarparu unrhyw wasanaethau, neu fel arall ni all y swyddog rhenti ymdrin â'r cais** |
| 10 A oes unrhyw ddodrefn yn cael eu darparu o dan y denantiaeth? | Oes ☐ Nac oes ☐ | Ticiwch un blwch |
| Os "Oes", rhowch y manylion neu anfonwch restr gyda'r ffurflen | | |
| 11 Y denantiaeth | | |
| A oes cytundeb (ysgrifenedig ai peidio) na chaiff unrhyw rent ei dalu o dan y denantiaeth statudol | Oes ☐ Nac oes ☐ | Ticiwch un blwch |
| Os "Nac oes", a oes unrhyw rent yn daladwy ar hyn o bryd o dan gytundeb (ysgrifenedig ai peidio)? | Oes ☐ Nac oes ☐ | Ticiwch un blwch |
| Os "Oes", beth yw'r rhent? | £ y (ee yr wythnos, y mis, y chwarter etc) | |
| Beth yw hyd y cytundeb? | ______________ | |
| A oes cytundeb ysgrifenedig i amrywio telerau'r denantiaeth statudol? | Oes ☐ Nac oes ☐ | Ticiwch un blwch |
| Os "Oes", rhowch fanylion y cytundeb | Os oes gennych gytundeb anfonwch ef neu gopi ohono gyda'r ffurflen hon. Caiff ei anfon yn ôl atoch yn ddi-oed | |

| | | |
|---|---|---|
| 12 A yw'r swyddog rhenti wedi cofrestru neu gadarnhau rhent teg ar gyfer yr adeiladau o'r blaen? | Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ | Ticiwch un blwch |
| Os "Ydyw", a ddaeth i rym lai na blwyddyn a 9 mis yn ôl? | Do ☐ Naddo ☐ | Ticiwch un blwch |
| Os atebwch "Do" i'r ail gwestiwn, rhowch resymau dros eich cais, oni bai mai cais ar y cyd gan landlord a thenant ydyw | | |

13 Yn ystod y denantiaeth bresennol

- a yw'r tenant* wedi gwneud gwelliannau neu wedi gosod offer sefydlog, ffitiadau neu ddodrefn newydd nad yw'n gyfrifol amdanynt o dan delerau ei denantiaeth? Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch

Os "Ydyw", rhowch y manylion ............

- a oes angen trwsio, neu a oes nam arall ar yr eiddo neu unrhyw offer sefydlog, ffitiadau neu ddodrefn am fod y tenant* wedi methu cydymffurfio ag amodau'r denantiaeth? Oes ☐ Nac oes ☐ Ticiwch un blwch

Os "Oes", rhowch y manylion

* *gan gynnwys cyn-denant o dan y denantiaeth bresennol*

14 Os yw'r swyddog rhenti wedi cofrestru rhent teg ar gyfer yr adeilad o'r blaen, a yw'r landlord wedi gwneud unrhyw waith gwella o bwys ers hynny? Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch

Os "Ydyw", rhowch y manylion

15 Yr wyf fi/yr ydym ni yn gwneud cais am gofrestru rhent

| | |
|---|---|
| Llofnod ........................................ | Llofnod ........................................ |
| *Dywedwch ai'r landlord neu asiant y landlord ydych* | *Dywedwch ai'r tenant neu asiant y tenant ydych* |
| Dyddiad ........................................ | Dyddiad ........................................ |

Os llofnodwyd gan asiant, enw a chyfeiriad yr asiant ........................................

........................................................................................................

Os gwneir y cais ar y cyd gan landlord a thenant, dylai'r ddau lofnodi. Os cais ar y cyd yw hwn, gall y swyddog rhenti gofrestru'r rhent y gofynnir amdano yng nghwestiwn 7 heb ymgynghori pellach. Os gwnaiff hynny, nid oes unrhyw hawl i wrthwynebu gerbron pwyllgor asesu rhenti. Mewn cais gan gyd-denantiaid neu gyd-landlordiaid, dylai pob un lofnodi, oni bai bod un yn llofnodi fel asiant ar ran y gweddill gyda'u cytundeb. Mewn achos o'r fath dylai ddweud ei fod yn gweithredu fel asiant.

NODYN

Ni fydd y denantiaeth yn denantiaeth statudol o dan y Ddeddf Rhenti (Amaethyddiaeth) 1976 lle bo'r tenant:

- yn rhannu ystafelloedd byw hanfodol megis cegin gyda thenantiaid eraill (nid y landlord), ac
- yn unig ddeiliad un ystafell yn unig ac os oedd o leiaf tair ystafell arall yn yr adeilad yn cael eu gosod (neu ar gael i'w gosod) ar delerau tebyg fel llety preswyl ar wahân adeg rhoi'r denantiaeth neu'r drwydded

**FFURFLEN RHIF 9A**

**RENT ACT 1977 section 67A and RENT (AGRICULTURE) ACT 1976, section 13**

**[DEDDF RHENTI 1977 adran 67A a DEDDF RHENTI (AMAETHYDDIAETH) 1976, adran 13]**

**CAIS AM GOFRESTRU RHENT TEG INTERIM YN ACHOS CYNNYDD OHERWYDD Y DRETH CYNGOR**

Darllenwch yr holl nodiadau'n ofalus

At y Swyddog Rhenti

| | |
|---|---|
| 1 Cyfeiriad yr Adeilad | Ystyr "Adeilad" yw'r eiddo, er enghraifft y tŷ, y fflat neu'r ystafell(oedd) yr ydych am gofrestru rhent ar ei gyfer |
| 2 Enw'r Tenant<br><br>Hefyd rhowch gyfeiriad y tenant os yw'n wahanol i'r uchod | |
| 3 Enw a Chyfeiriad y Landlord<br><br>Os cymdeithas tai gofrestredig neu ymddiriedolaeth tai, neu os y Gorfforaeth Tai ydyw, ticiwch yma ☐ | |
| 4 Manylion yr Adeilad<br><br>Dywedwch ba fath o eiddo ydyw, er enghraifft, tŷ, fflat neu ystafell (oedd). Os fflat neu ystafell(oedd) ydyw, dywedwch ar ba lawr y mae<br><br>Nodwch nifer a math yr ystafelloedd | |
| 5 A yw'r denantiaeth yn cynnwys unrhyw eiddo arall megis modurdy, neu adeilad neu dir arall ar wahân<br><br>Os "Ydyw", rhowch y manylion | Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch |
| 6 A yw'r tenant yn rhannu unrhyw ystafelloedd?<br><br>● gyda'r landlord?<br><br>Os "Ydyw", rhowch y manylion<br><br>● gyda thenant arall?<br><br>Os "Ydyw", rhowch y manylion | <br><br>Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch<br><br><br><br>Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch |
| 7 A yw'r swyddog rhenti wedi cofrestru neu gadarnhau rhent teg ar gyfer yr adeilad o'r blaen<br><br>Os "Ydyw", pryd y daeth i rym? | Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch |
| 8 Beth yw'r rhent yn awr? | £ y<br>(ee vr wythnos, y mis, y chwarter etc) |

| | |
|---|---|
| 9 A oes rhaid i'r tenant dalu'r dreth gyngor i'r landlord mewn perthynas â'r eiddo?<br><br>Os "Oes", rhowch fanylion y band y mae'r eiddo ynddo at ddibenion y dreth gyngor<br><br>Os "Nac oes", ni ddylech ddefnyddio'r ffurflen hon, gweler nodyn 2 | Oes ☐ Nac oes ☐ Ticiwch un blwch |
| 10 A yw'r landlord yn talu'r dreth gyngor mewn perthynas â'r eiddo?<br><br>Os "Nac ydyw", rhowch y manylion a gweler nodyn 2 | Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch |
| 11 Pa rent yr ydych am i'r swyddog rhenti ei gofrestru fel rhent teg? | £ y<br>(ee yr wythnos, y mis, y chwarter etc) |

12 Yr wyf fi/yr ydym ni yn gwneud cais am gofrestru rhent interim oherwydd y dreth gyngor

| | |
|---|---|
| Llofnod ........................................<br>*Dywedwch ai'r landlord neu asiant y landlord ydych* | Llofnod ............................................<br>*Dywedwch ai'r tenant neu asiant y tenant ydych* |
| Dyddiad ........................................ | Dyddiad ............................................ |

Os llofnodwyd gan asiant, enw
a chyfeiriad yr asiant ..........................................................................................

..............................................................................................................................

NODIADAU

1. Gellir defnyddio'r ffurflen hon mewn achosion lle mae'r tenant yn denant a ddiogelwyd neu'n denant statudol o dan y Ddeddf Rhenti 1977 a lle mae'r tenant yn denant statudol o dan y Deddf Rhenti (Amaethyddiaeth) 1976.

2. Ni ddylid defnyddio'r ffurflen hon ond i wneud cais i'r swyddog rhenti am gofrestru rhent interim i gymryd i ystyriaeth fod rhaid i'r tenant wneud taliadau i'r landlord mewn perthynas â'r dreth gyngor. Ni ellir ei defnyddio ar ôl 31 Mawrth 1994 neu os ydyw eisoes wedi'i defnyddio neu os nad oes treth gyngor i'w thalu am fod yr eiddo yn annedd sydd wedi'i eithrio. Ni ellir ei defnyddio os gellid gwneud cais am gofrestru rhent teg o dan amgylchiadau eraill.

3. Os gwneir y cais ar y cyd gan landlord a thenant, dylai'r ddau lofnodi. Os cais ar y cyd yw hwn, gall y swyddog rhenti gofrestru'r rhent y gofynnir amdano yng nghwestiwn 11 heb ymgynghori pellach. Os gwnaiff hynny, nid oes unrhyw hawl i wrthwynebu gerbron pwyllgor asesu rhenti. Mewn cais gan gyd-denantiaid neu gyd-landlordiaid, dylai pob un lofnodi, oni bai bod un yn llofnodi fel asiant ar ran y gweddill gyda'u cytundeb. Mewn achos o'r fath dylai ddweud ei fod yn gweithredu fel asiant.

**FFURFLEN RHIF 10**

**RENT ACT 1977 section 73 as amended by the Housing Act 1980**

**[DEDDF RHENTI 1977 adran 73 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai 1980]**

**CYD-GAIS AM DDILEU RHENT COFRESTREDIG**

Dylid defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer cyd-gais gan y landlord a'r tenant am ddileu'r rhent a gofrestrwyd ar gyfer yr adeilad a enwir yng nghwestiwn 1 isod lle bo cytundeb rhent newydd–

(i) yn cynyddu'r rhent o dan y denantiaeth reoledig bresennol; neu

(i) yn rhoi tenantiaeth reoledig newydd yn ôl rhent sy'n fwy na'r rhent o dan y denantiaeth flaenorol; a

lle bo'r denantiaeth yn rhedeg am o leiaf 12 mis ar ôl dyddiad y cais. Rhaid amgáu copi o'r cytundeb rhent gyda'r cais.

> PWYSIG: Ni ellir dileu rhent cofrestredig nes i ddwy flynedd o leiaf fynd heibio ar ôl y dyddiad gweithredol y cafodd y rhent diwethaf ei gofrestru neu ei gadarnhau.

*At y Swyddog Rhenti*

1 Cyfeiriad yr Adeilad

Ystyr "Adeilad" yw'r eiddo, er enghraifft y tŷ, y fflat neu'r ystafell (oedd) yr ydych am gofrestru rhent ar ei gyfer

2 Enw'r Tenant

Hefyd rhowch gyfeiriad y tenant os yw'n wahanol i'r uchod

3 Enw a Chyfeiriad y Landlord

4 Manylion yr Adeilad

Dywedwch ba fath o eiddo ydyw, er enghraifft, tŷ, fflat neu ystafell(oedd). Os fflat neu ystafell(oedd) ydyw, dywedwch ar ba lawr y mae ________

Nodwch nifer a math yr ystafelloedd

5 A yw'r denantiaeth yn cynnwys unrhyw eiddo arall?

Megis modurdy, neu adeilad neu dir arall ar wahân — Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch

Os "Ydyw", rhowch y manylion

6 A yw'r tenant yn rhannu unrhyw ystafelloedd?

● gyda'r landlord? — Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch

Os "Ydyw", rhowch y manylion

● gyda thenant arall? — Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch

Os "Ydyw", rhowch y manylion

7 A oes unrhyw wasanaethau'n cael eu darparu o dan y denantiaeth?

Megis glanhau, golau, gwres, dŵr poeth neu arddio — Oes ☐ Nac oes ☐ Ticiwch un blwch

Os "Oes", rhowch y manylion

8 A oes unrhyw ddodrefn yn cael eu darparu o dan y denantiaeth? — Oes ☐ Nac oes ☐ Ticiwch un blwch

Os "Oes", rhowch y manylion neu anfonwch restr gyda'r ffurflen

9 Pryd y dechreuodd y denantiaeth? ____________________

Os am gyfnod sefydlog, nodwch ba mor hir ____________________

Pa waith trwsio sy'n gyfrifoldeb
- y landlord?
- y tenant? ____________________

Rhowch fanylion telerau eraill y denantiaeth (ac eithrio rhent)

Os oes gennych gytundeb tenantiaeth anfonwch ef neu gopi ohono gyda'r ffurflen hon. Caiff ei anfon yn ôl atoch yn ddi-oed

10 Yn ystod y denantiaeth bresennol

- a yw'r tenant* wedi gwneud gwelliannau neu wedi gosod offer sefydlog, ffitiadau neu ddodrefn newydd nad yw'n gyfrifol amdanynt o dan delerau ei denantiaeth? — Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch

Os "Ydyw", rhowch y manylion ____________________

- a oes angen trwsio, neu a oes nam arall ar yr eiddo neu unrhyw offer sefydlog, ffitiadau neu ddodrefn am fod y tenant* wedi methu cydymffurfio ag amodau'r denantiaeth? — Oes ☐ Nac oes ☐ Ticiwch un blwch

Os "Oes", rhowch y manylion

* *gan gynnwys cyn-denant o dan y denantiaeth bresennol*

11 Os yw'r landlord wedi gwneud unrhyw waith gwella o bwys ers i'r rhent gael ei gofrestru? — Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Ticiwch un blwch

Os "Ydyw", rhowch y manylion

12 Yr ydym ni yn gwneud cais am ddileu'r rhent a gofrestrwyd ar gyfer yr adeilad a enwyd ym mharagraff 1 uchod

| | |
|---|---|
| Llofnod ........................................ <br> *Dywedwch ai'r landlord neu asiant y landlord ydych* | Llofnod ........................................ <br> *Dywedwch ai'r tenant neu asiant y tenant ydych* |
| Dyddiad ........................................ | Dyddiad ........................................ |

Os llofnodwyd gan asiant, enw a chyfeiriad yr asiant ........................................

........................................................................................................

Dylai'r ffurflen gael ei llofnodi gan y landlord (neu ei asiant) a'r tenant (neu ei asiant)

Mewn cais gan gyd-landlordiaid neu gyd-denantiaid, dylai pob un lofnodi, oni bai bod un yn llofnodi fel asiant ar ran y gweddill gyda'u cytundeb. Os felly dylai ddweud ei fod yn gweithredu fel asiant.

**FFURFLEN RHIF 11**

**RENT ACT 1977, section 73 as amended by the Housing Act 1980**

**[DEDDF RHENTI 1977, adran 73 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai 1980]**

**CAIS AM DDILEU RHENT COFRESTREDIG LLE NAD OES TENANTIAETH REOLEDIG**

At y Swyddog Rhenti

Yr wyf fi/yr ydym ni yn gwneud cais am ddileu'r rhent a gofrestrwyd ar gyfer yr adeilad isod. Mae o leiaf 2 flynedd wedi mynd heibio ers y dyddiad gweithredol y cafodd y rhent ei gofrestru neu ei gadarnhau.

Am y tro nid yw'r adeilad yn rhan o denantiaeth reoledig. Pe câi ei osod ar denantiaeth reoledig fi/ni fyddai'r landlord.

Cyfeiriad yr adeilad:

Llofnod ..........................................................................................................

[ar ran ..........................................................................................................]

Cyfeiriad y ceisydd ..........................................................................................

..........................................................................................................................

[Os asiant sy'n llofnodi, enw a chyfeiriad yr asiant ...........................................

..........................................................................................................................]

Dyddiad ........................................

**FFURFLEN RHIF 12**

**RENT ACT 1977 as amended by the Housing Act 1980**

**[DEDDF RHENTI 1977 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai 1980]**

Annwyl Syr/Madam

**HYSBYSIAD YNGLŶN Â CHAIS AM GOFRESTRU RHENT TEG**

1. Gofynnwyd i mi gofrestru rhent teg ar gyfer:

2. Os nad chi yw'r ceisydd, yr wyf yn amgáu copi o'r cais. **Byddwch cystal â'i gadw.** Dangosir y rhent y mae'r ceisydd wedi gofyn amdano yng nghwestiwn 7 ar y ffurflen. **Nid oes rhaid i mi gofrestru'r swm hwnnw fel y rhent teg; gallaf gofrestru ffigur uwch neu ffigur is.**

3. Mae gennych hawl i gyfarfod â mi i drafod pa rent y dylwn ei gofrestru. Ymgynghori yw'r enw ar hyn. Os hoffech gael cyfarfod, neu os oes gennych unrhyw sylwadau eraill, rhaid i chi ysgrifennu ataf fi cyn pen 14 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr hwn. Byddwn yn gwahodd y ddau barti i'r cyfarfod ymgynghori.

4. Byddwn yn ymgynghori os byddwch chi neu'r parti arall yn gofyn am hynny, neu os byddaf finnau'n penderfynu bod eisiau hynny. Byddaf yn dweud wrthych os bwriedir ymgynghori. Os na fydd ymgynghori, byddaf yn bwrw ymlaen i gofrestru rhent.

5. Mae gennych hawl i wrthwynebu i Bwyllgor Asesu Rhenti os byddwch yn anghytuno â'r rhent y byddaf yn ei gofrestru.

6. Hwyrach y byddaf yn penderfynu archwilio'r adeilad. Os oes swyddog rhenti wedi archwilio'r adeilad o'r blaen, ac os bu newidiadau mawr ers hynny, dylech roi gwybod i mi yn ysgrifenedig cyn pen 14 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr hwn (oni bai bod y newidiadau wedi'u nodi eisoes ar y ffurflen gais).

7. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth byddwch cystal â chysylltu â'm swyddfa.

Yn gywir

ar ran y Swyddog Rhenti

**FFURFLEN RHIF 13**

**RENT ACT 1977 as amended by the Housing Act 1980**

**[DEDDF RHENTI 1977 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai 1980]**

Annwyl Syr/Madam

**HYSBYSIAD YNGLŶN Â CHAIS AM GOFRESTRU RHENT TEG**

1. Gofynnwyd i mi gofrestru rhent teg ar gyfer:

2. Os nad chi yw'r ceisydd, yr wyf yn amgáu copi o'r cais. **Byddwch cystal â'i gadw.** Dangosir y rhent y mae'r ceisydd wedi gofyn amdano yng nghwestiwn 7 ar y ffurflen ac mae'n cynnwys swm am wasanaethau y mae'r landlord yn eu darparu. Os chi yw'r tenant ac os cafodd y cais ei wneud gan y landlord yr wyf hefyd yn amgáu copi o ddatganiad y landlord am ei wariant wrth ddarparu'r gwasanaethau.

3. **Nid oes rhaid i mi gofrestru'r swm hwnnw fel y rhent teg; gallaf gofrestru ffigur uwch neu ffigur is.**

4. Mae gennych hawl i gyfarfod â mi i drafod pa rent y dylwn ei gofrestru. Ymgynghori yw'r enw ar hyn. Os hoffech gael cyfarfod, neu os oes gennych unrhyw sylwadau eraill, rhaid i chi ysgrifennu ataf fi cyn pen 14 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr hwn. Byddwn yn gwahodd y ddau barti i gyfarfod ymgynghori.

5. Byddwn yn ymgynghori os byddwch chi neu'r parti arall yn gofyn am hynny, neu os byddaf-finnau'n penderfynu bod eisiau hynny. Byddaf yn dweud wrthych os bwriedir ymgynghori. Os na fydd ymgynghori, byddaf yn bwrw ymlaen i gofrestru rhent.

6. Mae gennych hawl i wrthwynebu i Bwyllgor Asesu Rhenti os byddwch yn anghytuno â'r rhent y byddaf yn ei gofrestru.

7. Hwyrach y byddaf yn penderfynu archwilio'r adeilad. Os oes swyddog rhenti wedi archwilio'r adeilad o'r blaen, ac os bu newidiadau mawr ers hynny, dylech roi gwybod i mi yn ysgrifenedig cyn pen 14 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr hwn (oni bai bod y newidiadau wedi'u nodi eisoes ar y ffurflen gais).

8. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth byddwch cystal â chysylltu â'm swyddfa.

Yn gywir

ar ran y Swyddog Rhenti

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations prescribe Welsh versions of Forms no. 5, 6, 7, 9A, 10, 11, 12 and 13 of the Rent Act 1977 (Forms etc.) Regulations 1980(**9**) as amended by the Rent Act 1977 (Forms etc.) (Amendment) Regulations 1984(**10**), 1987(**11**), 1988(**12**), and 1993(**13**) .

Forms 5, 6 and 7 are letters concerning the "Application for Registration of Fair Rent".

Form 9A is a letter concerning the "Application for an Interim Registration of Fair Rent".

Forms 10 and 11 are letters concerning the "Application for Cancellation of Registered Rent".

Forms 12 and 13 are letters concerning the "Notification of Application for Registration of Fair Rent".

The forms are a direct translation of the corresponding English forms with no amendment.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu fersiynau Cymraeg o Ffurflenni rhif 5, 6, 7, 9A, 10, 11, 12 a 13 y Rent Act 1977 (Forms etc) Regulations 1980(**4**) fel y'u diwygiwyd gan y Rent Act 1977 (Forms etc) (Amendment) Regulations 1984(**5**), 1987(**6**), 1988(**7**), a 1993(**8**).

Llythyron yw ffurflenni 5, 6 a 7 ynghylch y "Cais am Gofrestru Rhent Teg".

Llythyr yw ffurflen 9A ynghylch y "Cais am Gofrestru Rhent Teg Interim".

Llythyron yw ffurflenni 10 ac 11 ynghylch y "Cais am Ddileu Rhent a Gofrestrwyd".

Llythyron yw ffurflenni 12 a 13 ynghylch yr "Hysbysiad ynglŷn â Chais am Gofrestru Rhent Teg".

Mae'r ffurflenni'n gyfieithiad uniongyrchol o'r ffurflenni Saesneg cyfatebol heb unrhyw ddiwygiad.

(**9**) .I. 1980 No. 1697.
(**10**) S.I. 1984 No. 1391.
(**11**) S.I. 1987 No. 266.
(**12**) S.I. 1988 No. 2195.
(**13**) S.I. 1993 No. 655.
(**4**) O.S. 1980 Rhif 1697.
(**5**) O.S. 1984 Rhif 1391.
(**6**) O.S. 1987 Rhif 266.
(**7**) O.S. 1988 Rhif 2195.
(**8**) O.S. 1993 Rhif 655.